**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai

Chwefror 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai

Chwefror 2012

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae ei gylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Leanne Wood**
Plaid Cymru
Canol De Cymru

# Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor .....5
1. Cyflwyniad .....6
2. Diogelu amser bwyd .....7
3. Y Llwybr Gofal Maeth .....9
4. Gwybodaeth ariannol .....11
5. Arweinyddiaeth .....12
6. Gwastraff .....14
7. Hylendid bwyd .....15
8. Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol .....17
9. Casgliadau .....18

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y meant yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir na ddylid defnyddio'r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac os yw perthnasau a gofalwyr am gynorthwyo amser bwyd, dylai staff ar y ward eu hannog i wneud hynny. (Tudalen 8)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd leol yn rhoi copi o ganllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, sef '*Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty'* i bob claf yn ysbytai Cymru, a hynny pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty. (Tudalen 9)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod y modd y mae cyrff y GIG yn rhoi eu cynlluniau gweithredu'u hunain ar waith yn cael ei fonitro'n ofalus a bod y canlyniadau ar gael i bawb eu gweld. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro i ba raddau y mae cyrff y GIG yn llwyddo i roi ei chanllawiau ar waith, gan gynnwys defnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach i gleifion, lle bo hynny'n bosibl. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym sut a phryd y gallwn ddisgwyl i'r targedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod sgôr hylendid bwyd ysbytai yng Nghymru yn cael eu harddangos yn gyhoeddus (Tudalen 16)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu baratoi cynllun sy'n dangos sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau'r gwelliannau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu hargymell. (Tudalen 17)

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ('yr Archwilydd Cyffredinol') ei adroddiad, sef Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai. Daeth i'r casgliad fod gwasanaethau arlwyo yn ysbytai Cymru wedi gwella ers 2002, ond bod angen gwneud rhagor i wella gofal maeth i gleifion mewn ysbytai. Seiliwyd yr adroddiad hwn ar waith archwilio a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2010. Mae manylion yr archwiliad i'w cael yn Atodiad A i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

1.2 Cawsom wybodaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ein cyfarfod cyntaf ar 5 Gorffennaf 2011.[1] Yn dilyn hyn, penderfynwyd holi'r Comisiynydd Pobl Hŷn am oblygiadau casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol. Cawsom dystiolaeth gan Ruth Marks, Comisinydd Pobl Hŷn Cymru ar 4 Hydref 2011[2] a chawsom dystiolaeth gan y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol, David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2011.[3] Ar ôl y sesiwn gyda'r Swyddog Cyfrifyddu, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol, ac fe'i cawsom, ar ffurf ysgrifenedig, ar 15 Rhagfyr 2011[4]

1.3 Rydym wedi dod i amrywiol gasgliadau ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r dystiolaeth a gawsom. Rydym yn falch o weld bod pethau wedi gwella ers cynnal yr archwiliad diwethaf o berfformiad gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn 2002. Mae'n siomedig bod costau'r gwasanaeth a'r modd y cânt eu cynllunio a'u darparu'n dal yn amrywio cymaint ymhlith cyrff y GIG yng Nghymru, yn enwedig pan mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod bwyd maethlon yn rhan bwysig o'r broses o adfer iechyd cleifion, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei hamcanion polisi. Rydym yn gobeithio y bydd y gostyngiad yn nifer cyrff y GIG yng Nghymru yn ei gwneud yn haws rhannu arfer da ac y bydd hynny, yn ei dro, yn arwain at safoni'r elfen hanfodol hon o ofal mewn ysbytai.

1.4 Ein bwriad yw dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn i weld i ba raddau y mae argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u rhoi ar waith.

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 5 Gorffennaf 2011
[2] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 4 Hydref 2011)
[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 11 Tachwedd 2011
[4] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 15 Rhagfyr 2011

# 2. Diogelu amser bwyd

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i ysbytai gyflwyno polisi i ddiogelu amser bwyd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio'r polisi hwn yn ei adroddiad:

> "Amser bwyd wedi'i ddiogelu yw cyfnodau lle mae pob gweithgarwch nad yw'n weithgarwch brys yn dod i ben ar wardiau ysbytai er mwyn rhoi cyfle i gleifion fwyta eu pryd o fwyd heb i neb amharu arnynt yn ddiangen, a phan fydd staff nyrsio yn gallu rhoi cymorth i bobl yn ystod amser bwyd."[5]

2.2 Wrth ystyried casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol, penderfynwyd gofyn am farn Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ('y Comisiynydd') am y goblygiadau ar gyfer pobl hŷn.

2.3 Seiliodd y Comisiynydd ei thystiolaeth ar agweddau ar ei hadroddiad, sef *'Urddas mewn Gofal? Profiadai pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru.'*[6] Mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai, daeth y Comisiwn i'r casgliad a ganlyn:

> '[…] it is the level of assistance with eating and drinking which most impacts on older people's dignity and respect […]' and that the provision of '[…] timely and appropriate assistance with eating and drinking was an issue of concern raised by a significant number of people.'[7]

2.4 Yn ôl y Comisiynydd, mae'r polisi o ddiogelu amser bwyd wedi gwella'r sefyllfa rhywfaint. Fodd bynnag, roedd wedi clywed hanesion am berthnasau a gofalwyr yn cael eu hatal rhag cynorthwyo pobl hŷn i fwyta oherwydd y polisi hwn.[8]

2.5 Rydym yn cydnabod y gall yr egwyddor o ddiogelu amser bwyd, o'i gweithredu'n iawn, fod yn rhan bwysig o'r broses o greu amgylchedd ar y ward sy'n annog cleifion i fwyta ac i fwynhau eu bwyd. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, am yr adroddiadau sy'n awgrymu bod y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio i atal perthnasau a gofalwyr rhag helpu'r cleifion i fwyta.

---

[5] Archwilydd Cyffredinol Cymru, t.33
[6] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, *'Urddas mewn Gofal?' Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru* , Mawrth 2011(Saesneg yn unig)
[7] Ibid t.52
[8] Ibid t.53

2.6 Soniwyd am y pryder hwn pan ymddangosodd y Swyddog Cyfrifyddu gerbron y Pwyllgor. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu'n glir fod yr egwyddor o ddefnyddio aelodau o'r teulu a gwirfoddolwyr i helpu amser bwyd yn cael ei hannog. Roedd yn cydnabod hefyd nad dyma'r sefyllfa ym mhob rhan o Gymru ac roedd yn ymrwymo i sicrhau:

> "[…] we have the right information available to relatives, friends, carers and volunteers about the opportunity to assist on admission, and that that is provided in a standardised and accessible way."[9]

2.7 Er ein bod yn croesawu'r cydnabyddiaeth hwn y dylid annog aelodau'r teulu a gwirfoddolwyr i gynorthwyo amser bwyd, rydym yn dal yn pryderu nad yw'r neges hon yn cyrraedd staff ar y ward.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir na ddylid defnyddio'r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac os yw perthnasau a gofalwyr am gynorthwyo amser bwyd, dylai staff ar y ward eu hannog i wneud hynny.**

2.8 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir na ddylid defnyddio'r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac os yw perthnasau a gofalwyr am gynorthwyo amser bwyd, dylai staff ar y ward eu hannog i wneud hynny.

[9] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011 c.71

## 3. Y Llwybr Gofal Maeth

3.1 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y rhan fwyaf o gleifion yn cael eu sgrinio mewn rhyw ffordd pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty, ond bod angen gwella'r broses sgrinio honno, a'r camau a gymerir ar ôl sylweddoli bod problem o ran maeth. Daeth i'r casgliad hefyd nad oedd cysondeb yn y modd y caiff y llwybr gofal maeth ei fabwysiadu a'i gymhwyso.

3.2 Pan godwyd y mater hwn gyda'r Swyddog Cyfrifyddu, fe ddisgrifiodd y cynnydd a wnaed, yn ei dyb ef, yn y maes hwn.[10] Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol mai araf fu'r cynnydd yn y maes hwn, ond mae'n galonogol gweld bod y Swyddog Cyfrifyddu'n datblygu rhaglen e-ddysgu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r llwybr gofal maeth yn ystod y 12 mis nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at fesur llwyddiant hyn yn y dyfodol.

3.3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynhyrchu taflen ar gyfer cleifion ysbytai yn nodi'r hyn y gallant ei ddisgwyl: 'Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty.[11] Rydym yn credu y dylid rhoi'r wybodaeth hon i bob claf mewn ysbyty.

3.4 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi copi o ganllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty' - i bob claf yn ysbytai Cymru, a hynny pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd leol yn rhoi copi o ganllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, sef '*Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty'* i bob claf yn ysbytai Cymru, a hynny pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty.**

3.5 Yn dilyn adroddiad y Comisiynydd '*Urddas mewn Gofal? Profiadau pobl hŷn yn ysbytai Cymru,* dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

> "Welsh Government has prioritised dignity in care in its new NHS delivery framework for 2011-12, which NHS Wales must deliver on. Every NHS organisation now has an action plan

[10] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011 c.20

[11] Swyddfa Archwilio Cymru, *Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty* , 2011

approved by the commissioner in place, and implementation is being actively monitored by the Welsh Government."[12]

3.6 Wrth ymgymryd â'r gwaith monitro hwn, rydyn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus anghenion y cleifion hynny sydd, o bosibl, yn ei chael yn anoddach cyfleu eu hanghenion maeth eu hunain.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod y modd y mae cyrff y GIG yn rhoi eu cynlluniau gweithredu'u hunain ar waith yn cael ei fonitro'n ofalus a bod y canlyniadau ar gael i bawb eu gweld.**

[12] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011, c.41

## 4. Gwybodaeth ariannol

4.1 Rydym yn credu bod yn rhaid cael gwell gwybodaeth am reolaeth ariannol a bod yn rhaid cael darlun mwy o eglur o gostau. Rydym yn ei gweld yn rhyfedd bod amheuaeth yn parhau ynhylch safon y data a gallu cyrff y GIG i brisio gwasanaethau'n briodol. Os yw'r math yma o wybodaeth yn anghywir ar gyfer gwasanaethau arlwyo, rydym yn arbennig o bryderus y gall safon y wybodaeth am reoli arian yn fwy cyffredinol hefyd fod yn is na'r disgwyl.

4.2 Yn ychwanegol at y pryderon uchod, rydym yn deall bod y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (y cyfeirir ato fel EFPMS yn y dystiolaeth) wedi bod ar waith ers degawd bron, ac felly rydym yn ei chael yn anodd deall pam nad yw'r broblem ynglŷn â safon a chysondeb y data wedi cael sylw cyn hyn. Rhoddodd y Swyddog Cyfrifyddu enghraifft dda i ni o'r modd y llwyddodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i arbed arian drwy fabwysiadu systemau prisio gwell a oedd yn golygu bod TAW yn cael ei drin yn briodol, a hoffem weld y math hwn o arfer da'n cael ei rannu, yn enwedig gan fod Mr Walker wedi dweud wrthym mai dim ond un neu efallai ddau fwrdd iechyd lleol sydd â systemau soffistigedig i gasglu gwybodaeth am gostau.

4.3 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad am sefyllfa ariannol y GIG yn ddiweddarach eleni a byddwn yn dychwelyd at rai o'r materion hyn pan fyddwn yn trafod ei adroddiad.

## 5. Arweinyddiaeth

5.1 Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r dystiolaeth a gawsom gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dangos bod arweinyddiaeth effeithiol ar y wardiau yn allweddol i'r gwaith o roi gofynion y llwybr gofal maeth ar waith. Yn ei dystiolaeth, tanlinellodd y Swyddog Cyfrifyddu ei bod yn bwysig i staff o wahanol alwedigaethau o fewn yr ysbyty gyfrannu at y maes hwn.[13] Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol nid yw arweinyddiaeth ar y wardiau bob amser yn amlwg.

5.2 O ran y byrddau, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai cyfyngedig yw'r wybodaeth a gaiff byrddau'r GIG am berfformiad y gwasanaethau arlwyo a materion yn ymwneud â maeth cleifion. Rhaid i hyn wella os yw'r Byrddau am graffu'n effeithiol ar y gwasanaeth hanfodol hwn, a chynnig yr arweinyddiaeth sydd ei angen i fwrw ymlaen â gwelliannau. Rydym yn disgwyl i Brif Weithredwyr pob bwrdd iechyd, fel Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, sicrhau bod hyn yn digwydd ac rydym am eu hatgoffa eu bod yn atebol i ni os na fyddant yn llwyddo i wneud hynny.

5.3 Yn benodol, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y gwaith o ddarparu gwasanaethau arlwyo'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020: Strategaeth Fwyd i Gymru* yn nodi bod:

> "Bydd y Strategaeth Fwyd yn annog Awdurdodau Lleol a chyrff eraill yn y **sector cyhoeddus** i ddefnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach lle y bo'n bosibl. Ar lefel Awdurdodau Lleol, cydnabyddir fwyfwy'r cyfraniad y gall defnyddio bwyd lleol ei wneud o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol"[14]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro i ba raddau y mae cyrff y GIG yn llwyddo i roi ei chanllawiau ar waith, gan gynnwys defnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach i gleifion, lle bo hynny'n bosibl.**

---

[13] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011 c.45

[14] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol: Bwyd a Diod i Gymru, 2009, t28.

5.4 Mae’n barn ni am ddiogelu amser bwyd, sydd wedi’i nodi yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn enghraifft o benderfyniad polisi nad yw’n cael ei drosglwyddo’n effeithiol i’r wardiau, sy’n golygu nad yw prif nyrsys y wardiau’n cael rhoi’r arweiniad y gallent ei gynnig fel arall.

## 6. Gwastraff

6.1 Mae llawer gormod o fwyd yn dal yn cael ei wastraffu ar lawer o wardiau ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol, mae oddeutu 15 y cant o'r bwyd a gaiff ei baratoi'n cael ei wastraffu yng Nghymru, ac amcangyfrifiwyd bod hyn yn cyfateb i £1.5 miliwn yn 2009-10. Drwy ddelio â'r gwastraff hwn, credwn y byddai cyfle i sicrhau arbedion ariannol y gellid ei ailfusoddi i wella'r gwasanaethau arlwyo. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod natur gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn golygu bod yn rhaid i rai aelodau o staff deithio'n eang ledled Cymru, gan gynnwys i leoliadau nad yw'n hawdd teithio iddynt ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid cofio, fodd bynnag, fod cyrff eraill wedi cael gwared â threfniadau llogi ceir yn raddol a'u bod wedi mabwysiadu trefniadau eraill fel prynu car i'w rannu neu ddefnyddio cyfleusterau cynhadledd fideo'n amlach.

6.2 Cynigiodd y Swyddog Cyfrifyddu dargedau i wella'r sefyllfa, gan nodi:

> "In the first place, we believe that it would be appropriate to set a target in the order of 10 per cent, but we would want to improve on that, while also accepting that zero waste is impractical. However, we would like to get down from 10 per cent to 5 per cent in due course."[15]

6.3 Rydym yn croesawu'r targedau a bennwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu. Credwn, fodd bynnag, y dylid pennu amser penodol ar gyfer cyrraedd y targedau hyn ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym pryd a sut y gallwn ddisgwyl i'r targedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym sut a phryd y gallwn ddisgwyl i'r targedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd.**

[15] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011 c.132

# 7. Hylendid bwyd

7.1 Nid ydym yn disgwyl i ysbytai fodloni ar safonau hylendid bwyd boddhaol, rydyn yn disgwyl i'r safonau hyn fod yn rhagorol, yn enwedig o gofio'r posibilrwydd y gallai gwendidau yn y maes hwn fod yn broblem ddifrifol i bobl sydd eisoes yn wael.

7.2 Roeddem yn falch o glywed bod 95 y cant o ysbytai a gafodd eu harolygu'n cael eu hystyried yn foddhaol neu'n well na'n foddhaol, er ein bod yn deall mai dim ond hanner ysbytai Cymru sydd wedi'u harolygu hyd yma.

7.3 Yn ei lythyr atom ar 15 Rhagfyr 2011, yn ymateb i'r materion a gododd y Pywllgor yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd, cyflwynodd y Swyddog Cyfrifyddu ddadansoddiad o'r canlyniadau:

- 50% (29 ysbyty) "yn dda iawn - gradd 5"
- 36% (21 ysbyty) "yn dda – gradd 4"
- 9% (5 ysbyty) "yn foddhaol yn gyffredinol – gradd 3"
- 5% (3 ysbyty) "angen gwella – gradd 1 neu 2"[16]

7.4 Roedd yn gryn bryder inni ddeall bod problemau hylendid bwyd difrifol wedi'u darganfod mewn tri ysbyty, a'u bod wedi sgorio dim ond un ar raddfa o bump mewn arolygiadau gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

7.5 Er bod y tri ysbyty ar fin cau, nid yw hynny'n esgusodi perfformiad mor wael. Dylai cleifion fedru disgwyl hylendid bwyd o'r safon uchaf bosibl mewn ysbyty sy'n darparu gofal, ni waeth beth yw dyfodol y lle.

7.6 Yn dilyn proses o ailasesu, roeddem yn falch o glywed bod safonau wedi gwella mewn dau o'r tri ysbyty a gafodd y sgôr isaf.

7.7 Hyderwn fod gwersi wedi'u dysgu o lwyddiannau a methiannau yn y maes hwn, ac rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru a byrddau'r GIG yn sicrhau bod ysbytai yng Nghymru yn cyrraedd safonau hylendid bwyd rhagorol. I helpu i greu hinsawdd o wella safonau'n barhaus, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i ysbytai yng Nghymru arddangos eu sgôr ar gyfer hylendid bwyd yn gyhoeddus.

---

[16] David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Weithredwr GIG Cymru, Ymateb i'r Pwyntiau Gweithredu, 15 Rhagfyr 2011

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod sgôr hylendid bwyd ysbytai yng Nghymru yn cael eu harddangos yn gyhoeddus.**

## 8. Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

8.1 Roeddem yn falch bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi derbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac wedi ymrwymo i gymryd camau i'w rhoi ar waith.[17]

8.2 I'n cynorthwyo ni a'r Archwilydd Cyffredinol i fonitro i ba raddau y mae'r argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith, rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu baratoi cynllun sy'n dangos sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau'r gwelliannau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu hargymell.

**Rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu baratoi cynllun sy'n dangos sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau'r gwelliannau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu hargymell.**

[17] Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2011 c.20

# 9. Casgliadau

9.1 Mae arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn elfennau hanfodol o'r gofal a gynigir i gleifion. Er ein bod yn croesawu'r gwelliannau a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae cyflymder y newidiadau, y modd y mae penderfyniadau polisi'n cael eu trosglwyddo i'r wardiau a'r anghysondeb rhwng y gwahanol fyrddau iechyd lleol yn dal yn peri pryder i ni.

9.2 Mae'n gwaith yn dangos bod lle i bryderu am y wybodaeth sydd ar gael am gostau a rheolaeth ariannol y byrddau iechyd lleol. Rydym yn edrych ymlaen at adroddiad arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol am sefyllfa ariannol y GIG yng Nghymru a fydd yn rhoi cyfle inni ymchwilio ymhellach ac yn fanylach i rai o'r pryderon hyn.

9.3 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi nodi'r gwahanol gamau y mae angen eu cymryd i wella gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Byddwn yn asesu cynnydd yn y maes hwn eto yn ystod y deuddeg mis nesaf a byddwn yn disgwyl gweld bod y sefyllfa wedi gwella erbyn hynny.